Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod arbennig o'r Cyngor a gynhaliwyd ar nos Fawrth, Mai 27ain, 2014 yn Neuadd Llanystumdwy i drafod rhif 9 ar y rhaglen, derbyn crynodeb o gyfrifon Incwm a Gwariant y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth, 2014.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr John Williams, (Cadeirydd); Brian W Ifans; Aled Lloyd Evans; Alwen Evans; Naomi Jones; Elis Gwyn Jones; Gwilym M Thomas; Dafydd Williams; Marian Evans a'r Clerc.

1. Arwyddo Datganiadau Derbyn Swydd; Y Cadeirydd a'r Is gadeirydd, Arwyddwyd gan y Cadeirydd. Nid oedd yr Is gadeirydd yn bresennol.
2. Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Margaret Griffith a Thomas Prys Jones.
3. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y ddau gyfarfod diwethaf; cyfarfod y Cyngor llawn, a chyfarfod yr Is-bwyllgor Polisiau a Rheolau Sefydlog.
4. Materion yn codi o'r cofnodion. Byddant ar raglen mis Mehefin..
5. Datgan buddiant personol. Neb yn datgan buddiant personol.
6. Cyngor Gwynedd –

1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol – Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Phriffyrdd, Mai 2014. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth y bydd arwisgo Groesffordd Tŷ Newydd – Groesffordd Dulwyn, Llangybi.

2. Adran Rheoleiddio; Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd – Materion yn y Gymuned. Roedd cais am gael arwydd i ddynodi bod teithwyr wedi cyrraedd Llanarmon yn cael ei wrthod, nid yw'r lleoliad yn addas i arwyddion o'r fath gan fod y ffyrdd o amgylch y pentref yn rhy gul i leoli arwyddion. Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir ail ystyried, mae'r ffordd yr un mor llydan ag ydyw ym mhentref Pencaenewydd ac mae arwyddion yn y fan honno.

3. Posteri Ailgylchu. Rhannwyd y posteri.

4. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd; adleoli'r bin baw cŵn ger mynedfa safle bedd David Lloyd George yn Llanystumdwy. Penderfynwyd gofyn am drefnu cyfarfod o gynrychiolaeth o'r Cyngor yma gyda Rheolwr Gwasanaethau Stryd Cyngor Gwynedd.

7. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y Gymuned.

1. Cais rhif C14/0383/41/LL – Dymchwel tŷ presennol a chodi tŷ newydd yn ei le; Pinetrees, Pencaenewydd. Penderfynwyd cefnogi'r cais yma.

8. Fforwm Trosedd ac Anrhefn Pen Llŷn. Cyfarfod wedi bod nos Fawrth, Mai 20fed yn Abersoch. Derbyniwyd er gwybodaeth.

9. Derbyniwyd crynodeb o gyfrifon Incwm a Gwariant y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth, 2014. Roedd yr Archwiliwr Mewnol yn berffaith fodlon gyda'r llyfrau ac felly gellir cario ymlaen ac anfon y ffurflenni priodol i'r Archwiliwr Allanol.

Y Cyngor yn gaeedig i'r Cyhoedd ac i'r Wasg.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.